

## Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog

Os ydych yn derbyn arian gan y Gronfa Loteri Fawr i gyflwyno prosiect yng Nghymru bydd angen i chi wneud hynny'n ddwyieithog, yn unol â Safonau Iaith y Gronfa Loteri Fawr.

Mae cynnig gwasanaethau eich prosiect yn Gymraeg a Saesneg yn un o amodau a thelerau eich grant, ond mae hefyd yn gyfle gwych i chi sicrhau fod pawb yn eich cymuned yn gallu cymryd rhan yn eich prosiect.

### Beth mae hyn yn ei olygu

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut y byddwch yn cyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog cyn cyflwyno eich cais am ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr, gan y bydd angen i chi gynnwys unrhyw gostau cysylltiedig yng nghyllideb eich prosiect.

- Os bydd eich prosiect yn cynnwys deunyddiau ysgrifenedig megis taflenni, poster, llyfrynnau neu wefannau, bydd angen cynhyrchu'r rhain yn Gymraeg a Saesneg (fel dogfennau dwyieithog tipio a throi pryd bynnag y bo'n bosibl)
- Os ydych yn bwriadu cyflogi aelod o staff neu ddod a gweithwyr sesiynol i mewn gyda'ch grant gan y Gronfa Loteri Fawr bydd angen i chi ystyried yn ofalus p'un a oes angen siaradwr Cymraeg arnoch i gyflawni'r dyletswyddau dan sylw
- Bydd angen i unrhyw hysbyseb ar gyfer swydd newydd neu weithwyr sesiynol gael ei gosod yn y cyfryngau ac ar lein yn ddwyieithog a bydd angen i'r broses recriwtio megis cyfweiliadau fod ar gael yn y ddwy iaith
- Bydd angen i unrhyw ffilmiau y byddwch yn eu cynhyrchu gyda'n harian gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ble'n bosibl neu fel ffilmiau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Pan fyddwch yn hyrwyddo eich prosiect ar gyfryngau cymdeithasol, gwnewch hynny yn ddwyieithog, ble bynnag yn bosibl
- Gofynnwn i chi ystyried natur ieithyddol y gymuned rydych yn gweithio ynddi yn ystod cyfnod y grant a chynnig gwasanaethau yn unol â hynny.



ARIENNIR GAN Y  
LOTERI GENEDLAETHOL  
NATIONAL  
LOTTERY FUNDED



### Beth sydd angen i chi ei wneud

Mae angen i chi ystyried eich costau o gyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog er mwyn eu cynnwys yng nghyllideb y prosiect. Gall y rhain gynnwys:

- costau cyfieithu deunyddiau cyhoeddusrwydd/ hyrwyddo
- costau cyfieithu cwmnïau gwefannau neu gwe- ddylunio dwyieithog
- costau recriwtio dwyieithog e.e cyfieithu hysbysebion a phecynnau recriwtio
- Costau cynhyrchu ffilmiau

### Pwy all helpu

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweithio mewn partneriaeth ag Estyn Llaw, sy'n helpu mudiadau trydydd sector i weithio'n ddwyieithog. Gall Estyn Llaw gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i'ch sefydliad, rhai yn rhad ac am ddim ac eraill am dâl. Mae gwybodaeth am yr holl wasanaethau maent yn eu cynnig i'w gweld ar eu gwefan yn [www.estynllaw.org](http://www.estynllaw.org)

Neu gallwch gysylltu â nhw ar:

**E-bost:** [ymhol@estynllaw.org](mailto:ymhol@estynllaw.org)

**Ffôn:** 0800 9177 969

Neu cysylltwch â ni ar

[cymorthcymraeg@cronfaloterifawr.org.uk](mailto:cymorthcymraeg@cronfaloterifawr.org.uk) os hoffech gyngor ar sut i gyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog.